DARLLEN

CC1

Enw cyntaf _____

Cyfenw _____

Ysgol _____

Dosbarth _____

Dyddiad geni ○○ ○○ ○○○○

Dyddiad y prawf ○○ 0 5 2 0 1 3

Cyfanswm y sgôr ○ (uchafswm 36)

Profion Darllen Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwestiynau Ymarfer

Yn y llyfryn hwn, mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb mewn ffyrdd gwahanol. Dyma rai cwestiynau enghreifftiol fydd yn dangos i chi sut i ateb y gwahanol gwestiynau sydd yn y prawf. Bydd y cyfarwyddiadau yn dweud wrthoch chi beth i'w wneud.
I ddechrau, darllenwch y darn darllen sydd yn y bocs isod.

Un bore dydd Sadwrn heulog penderfynodd Paul fynd allan ar ei feic. Ffoniodd Paul ei ddau ffrind, Jo a Rhys, a chytunodd y tri i gwrdd yn y parc amser cinio. Doedd Paul ddim eisiau brifo ei hun yn cwympo/syrthio o'i feic, felly gwisgodd helmed a phadiau ar ei freichiau. Gwaeddodd 'hwyl fawr' ar ei frawd Haydon a chododd ei law ar Jayne, ei chwaer. Chwibanodd ar Bobi'r ci wrth feicio i fyny'r stryd.

Pwy roedd Paul yn mynd i'w weld yn y parc?
Ticiwch **2**.

Awgrym: Gwiriwch sawl ateb sydd angen ei dicio.

Jo ☐ Bobi ☐
Anne ☐ Rhys ☐
Becky ☐

Edrychwch ar y geiriau yn y blwch isod.
Tanlinellwch un gair sy'n dweud ble roedd Paul yn mynd i gwrdd â'i ffrindiau.

Awgrym: Gwiriwch sawl gair sydd angen ei danlinellu.

Un bore dydd Sadwrn heulog penderfynodd Paul fynd allan ar ei feic. Ffoniodd Paul ei ddau ffrind, Jo a Rhys, a chytunodd y tri i gwrdd yn y parc amser cinio.

Awgrym: Os ydych yn gwneud camgymeriad ac angen newid eich ateb, ysgrifennwch eich ateb newydd o dan y bocs.

Dewiswch a chopïwch 2 beth roedd Paul yn eu gwisgo i'w gadw'n ddiogel ar y beic.

Awgrym: Dylech chi edrych eto ar y stori i ddod o hyd i'r atebion.

1. _____

2. _____

Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Aeth Paul i gwrdd â'i ffrindiau amser cinio.		
Digwyddodd y stori hon ar ddydd Llun.		
Roedd gan Paul chwaer o'r enw Jayne.		

Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn o 1 i 5.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

Paul yn gadael y tŷ. ☐

Paul yn ffonio ei ffrindiau. ☐

Paul yn codi llaw ar ei chwaer. ☐

Paul yn penderfynu mynd allan. 1

Paul yn gwisgo ei offer diogelwch. ☐

Tynnwch **3** llinell i ddangos sut dywedodd Paul ffarwél wrth bob un o'r canlynol.

chwibanu	Haydon
gweiddi	Jayne
codi llaw	Bobi

STOPIWCH

Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 4.

Mae tri darn i chi eu darllen a bydd angen i chi ateb cwestiynau ar bob un. Darllenwch y darn cyntaf yn ofalus cyn dechrau ateb y cwestiynau ar y darn. Yna darllenwch yr ail ddarn cyn ateb y cwestiynau ac yn y blaen.

Dylech chi weithio drwy'r llyfryn, gan stopio pan fydd rhywun yn dweud wrthoch am wneud hynny. Cewch gyfeirio at y testun pan fydd angen.

Mae gennych hyd at 60 munud i wneud y prawf.

Carreg Samson

Roedd Carreg Samson wedi bod yno erioed. Ers cyn i Cai gael ei eni. Yno'n gorwedd ym mhob tywydd a'r gwynt yn ei chwipio, neu'r haul yn ei chynhesu. A bob dydd byddai tonnau'r môr yn golchi o'i chwmpas ac yn taflu ewyn drosti, ewyn gwyn fel powdwr babi.

'Pwy oedd Samson, Mam?'

'Dyn cryf iawn. Mae'i hanes o yn dy Feibl Mawr di lle mae'r lluniau lliw.'

'Y dyn sy'n chwalu adeilad hefo'i ddwylo?'

'Ia, hwnnw.'

'Fo pia Carreg Samson?'

'Samson ddaeth â hi yma, meddan nhw. Gannoedd o flynyddoedd yn ôl. Ond stori ydi hi, cofia.'

Stori. Doedd Cai ddim yn siŵr a oedd o'n ei chredu hi. Roedd Samson yn ddyn andros o gryf*, ond roedd hon yn garreg andros o fawr hefyd. A'r holl ffordd o Israel i Sir Fôn? Roedd Israel yn bell, bell. Ac yn fan'no roedd Samson yn byw, mae'n rhaid, achos mai dyna roedd o'n ei ddweud ym Meibl Mawr y Plant.

Pwysodd Cai ei drwyn yn erbyn y ffenest nes bod cwmwl yn ffurfio ar y gwydr. Roedd hi'n braf byw mor agos at y môr. Yn braf mynd i gysgu gyda'r nos gan wrando ar y tonnau'n sibrwd pob mathau o bethau. Cyfrinachau. Craffodd Cai trwy niwl ei anadl ei hun. Roedd y môr allan yn bell rŵan a'r traeth yn edrych yn oer fel dyn heb sanau. Croen noeth y tywod yn sgleinio. Y cerrig mân fel ewinedd crwn. Roedd popeth mor hardd a glân.



Roedd Carreg Samson yn edrych yn fwy nag erioed heb y môr yn llyfu o'i chwmpas. Chwalodd Cai y niwl oddi ar y ffenest er mwyn cael edrych arni'n well.

Roedd yna rywbeth yn wahanol ynddi heddiw, ond beth? Roedd hi'r un siâp ag o'r blaen, fel pen rhyw anghenfil hir, a'r gwymon yn cyrlio drosti fel mwng llew gwlyb. Anghenfil? Llew? Anifail od? Yn sydyn, sylweddolodd Cai fod rhywbeth yn sgleinio'n rhyfedd o dan garped y gwymon. Daliodd ei wynt. Rhywbeth tebyg i … i lygad! Ac yna diflannodd yr haul tu ôl i gwmwl. A diflannodd y llygad 'run pryd. Teimlai Cai'n siomedig. A braidd yn wirion. Ai dyna'r cyfan oedd o, felly? Yr haul yn chwarae mig? Yn chwarae triciau â'i ddychymyg?

Fedrai Cai ddim bod yn siŵr ond gwyddai un peth. Roedd yn rhaid iddo fynd i lawr at Garreg Samson er mwyn cael gweld yn iawn.

andros o gryf * – cryf iawn, iawn

'Pwy oedd Samson, Mam?'

'Dyn cryf iawn. Mae'i hanes o yn dy Feibl Mawr di lle mae'r lluniau lliw.'

'Y dyn sy'n chwalu adeilad hefo'i ddwylo?'

'Ia, hwnnw.'

'Fo pia Carreg Samson?'

'Samson ddaeth â hi yma, meddan nhw. Gannoedd o flynyddoedd yn ôl. Ond stori ydi hi, cofia.'

Edrychwch ar y darn uchod.
Pam mae'r awdur wedi gosod y darn hwn fel hyn?

Ticiwch **un**.

Mae'n haws ei ddarllen. ☐
Mae'n edrych yn fwy diddorol. ☐
Mae rhywbeth pwysig yn digwydd yma. ☐
Mae pobl yn siarad â'i gilydd. ☐

1
1m

Pam mae seren (*) wrth ochr y geiriau *andros o gryf*?

Ticiwch **un**.

achos bod y gair yn bwysig ☐
achos bod y gair mewn iaith arall ☐
achos bod angen esbonio'r gair ☐
achos bod y gair yn anghywir ☐

2
1m

Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

	Cywir	Anghywir
Roedd Carreg Samson yn hen iawn.	✓	
Roedd Cai yn credu'r stori am sut daeth y garreg i Gymru.		
Roedd Cai yn hoffi byw yn agos i'r môr.		
Doedd dim byd yn tyfu ar Garreg Samson.		
Roedd hi'n bwrw glaw pan oedd Cai yn edrych allan drwy'r ffenestr.		

3
2m

trosodd

CYFANSWM
4m

Edrychwch ar y paragraff sy'n dechrau *Roedd yna rywbeth …*

Pam mae cymaint o gwestiynau yn y darn?

Ticiwch **un**.

- er mwyn dangos bod Cai yn ansicr am y garreg ☐
- er mwyn dangos bod y garreg yn hen iawn ☐
- er mwyn dangos bod Cai yn cael siom yn y garreg ☐
- er mwyn dangos bod y garreg yn newid drwy'r amser ☐

4 1m

Yn y darn hwn mae'r awdur yn defnyddio cymhariaeth/cyffelybiaeth (yn cymharu dau beth â'i gilydd) yn aml.

Dewiswch a **chopïwch 2** enghraifft o'r darn.

1. _____

2. _____

5 1m

6 Beth ddigwyddodd i'r garreg pan ddiflannodd yr haul?

Ticiwch **un**.

- Roedd yn edrych yn fwy. ☐
- Roedd yn edrych fel llew. ☐
- Roedd yn edrych fel anghenfil. ☐
- Roedd y llygad wedi diflannu. ☐
- Roedd y gwymon wedi diflannu. ☐

6 1m

Pam roedd Cai wedi penderfynu mynd i lawr i'r traeth ar ddiwedd y darn?

Ticiwch **un**.

- er mwyn chwarae yn y môr ☐
- er mwyn siarad â Samson ☐
- er mwyn edrych ar y garreg ☐
- er mwyn casglu gwymon ☐

7 1m

Yn aml yn y darn hwn mae'r awdur yn cymharu dau beth wrth ddisgrifio.

Gorffennwch y tabl isod er mwyn dangos sut mae gwahanol bethau yn cael eu disgrifio.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

Eitem	Disgrifiad
ewyn gwyn	*powdwr babi*
	ewinedd crwn
	mwng llew gwlyb
y traeth	

8

1m

Rhywbeth tebyg i ... i lygad!

Pam mae tri dot (...) yng nghanol y frawddeg uchod?

Ticiwch **un**.

i ddangos bod llawer o eiriau ar goll o'r frawddeg ☐

i ddangos bod Cai yn meddwl ☐

i ddangos bod un gair pwysig ar goll o'r frawddeg ☐

i ddangos bod Cai yn methu siarad yn iawn ☐

9

1m

trosodd

CYFANSWM

6m

Byddwn ni'r Cymry'n dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar y cyntaf o Fawrth bob blwyddyn. Er mwyn cofio Dewi Sant, ein traddodiad ni yw gwisgo cenhinen neu genhinen Bedr a bwyta cawl cennin. Ond mewn gwledydd eraill, maen nhw'n gwneud pethau gwahanol a rhyfedd iawn adeg gwyliau.

Gŵyl La Tomatina, Sbaen

Bob mis Awst, bydd tua 40,000 o bobl yn dod i dref Buñol. Bydd lorïau'n gollwng miloedd ar filoedd o domatos ac mewn chwinciad, bydd pawb yn dechrau taflu tomatos at ei gilydd. Erbyn y diwedd, bydd pob un yn goch o'i gorun i'w sawdl. Ar ddiwedd yr ŵyl, bydd injans tân yn chwistrellu dŵr dros bawb. Pwrpas yr ŵyl yw diolch am y cynhaeaf tomatos.

Gŵyl Holi, India

Gŵyl y Lliwiau yw'r enw arall ar yr ŵyl hon. Bydd pobl yn rhwbio paent ac yn taflu powdr lliwgar dros ei gilydd. Bydd pawb wrth eu bodd yn dawnsio a chanu hefyd. Mae hon yn ŵyl hapus a hwyliog ac yn draddodiadol, roedd hi'n dathlu dechrau'r gwanwyn. Nawr mae hi'n cael ei chynnal ym mis Chwefror.

Gŵyl Songkran, Gwlad Thai

Yn ystod yr ŵyl hon ym mis Ebrill, bydd pobl yn taflu dŵr dros ei gilydd. Dros dri diwrnod, byddan nhw'n llenwi bwcedi â dŵr a'i arllwys* dros bobl neu'n chwistrellu dŵr o bibenni, nes bod pawb yn wlyb domen. Mae hyn yn dod â lwc i bawb, meddan nhw!

Gŵyl El Colacho, Sbaen

Dechreuodd yr ŵyl hon yn 1620 ac mae rhai'n dweud mai hon yw'r ŵyl fwyaf peryglus yn y byd. Ym mis Mehefin, bydd babanod bach sydd wedi cael eu geni yn ystod y flwyddyn yn cael eu rhoi i orwedd ar fatresi. Wedyn, bydd dyn mewn gwisg felen yn neidio drostyn nhw. Mae hyn i fod i gadw'r babanod yn ddiogel rhag niwed drwy gydol eu bywyd.

Gŵyl Tunarama, Awstralia

Mae'r ŵyl bysgod hon yn cael ei chynnal bob mis Ionawr yn nhref Port Lincoln. Mae hi'n dangos pa mor bwysig yw pysgod i'r ardal. Bydd pobl yn bwyta llawer o bysgod a hefyd yn gwisgo fel pysgod er mwyn gorymdeithio drwy'r strydoedd. Uchafbwynt yr ŵyl yw cystadleuaeth taflu tiwna i ddynion a merched. Mae'r tiwna'n pwyso rhwng 8 kg a 10 kg. Tiwna plastig sy'n cael ei ddefnyddio yn y rowndiau cyntaf, ond bydd tiwna go iawn yn cael ei daflu yn y rownd derfynol. 37.23 metr yw record y byd am daflu tiwna!

arllwys* – tywallt

Ble yn y byd mae pobl yn dathlu drwy daflu pysgod?

Ticiwch **un**.

India ☐
Sbaen ☐
Awstralia ☐
Gwlad Thai ☐

1
1m

Tynnwch **5** llinell arall i gysylltu pob gŵyl â'r mis y mae'n digwydd.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

Dydd Gŵyl Dewi	mis Ionawr
Gŵyl La Tomatina	mis Chwefror
Gŵyl Holi	mis Mawrth
Gŵyl El Colacho	mis Ebrill
Gŵyl Songkran	mis Mehefin
Gŵyl Tunarama	mis Awst

2
1m

Ble yn y byd mae pobl yn mynd yn wlyb iawn wrth ddathlu?

Ticiwch **2** wlad.

Cymru ☐ Gwlad Thai ☐
Sbaen ☐ Awstralia ☐
India ☐

3
1m

Dewiswch yr ansoddair (gair disgrifio) sy'n perthyn i bob gŵyl.
Ticiwch **un** bob tro.

Gŵyl La Tomatina

a) coch ☐ glas ☐ llwyd ☐ melyn ☐

4a
1m

Gŵyl Holi

b) trist ☐ gwlyb ☐ di-liw ☐ amryliw ☐

4b
1m

Gŵyl Songkran

c) peryglus ☐ lwcus ☐ rhewllyd ☐ anaddas ☐

4c
1m

CYFANSWM
6m

trosodd

Edrychwch ar y testun yn y bocs.

Tanlinellwch yr ymadrodd sy'n dangos bod pobl yn mwynhau gŵyl Holi.

> **Gŵyl Holi, India**
>
> Gŵyl y Lliwiau yw'r enw arall ar yr ŵyl hon. Bydd pobl yn rhwbio paent ac yn taflu powdr lliwgar dros ei gilydd. Bydd pawb wrth eu bodd yn dawnsio a chanu hefyd.

5
1m

Beth yw'r gair gorau i ddisgrifio'r bobl sydd wedi bod i ŵyl Songkran?

Ticiwch **un**.

poeth ☐
oer ☐
gwlyb ☐
sych ☐

6
1m

Beth yw barn rhai pobl am ŵyl El Colacho?

_____

7
1m

Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

	Cywir	Anghywir
Mae cennin yn y cawl rydyn ni'n ei fwyta yng Nghymru ar ddydd Gŵyl Dewi.	✓	
Mae injan dân yn gwlychu pawb ar ddechrau gŵyl La Tomatina.		
Roedd pobl yn arfer dathlu bod y gwanwyn wedi dod yng ngŵyl Holi.		
Mae bwcedi'n cael eu defnyddio yng ngŵyl Songkran.		
Mae dyn mewn gwisg goch yn neidio dros y babanod yng ngŵyl El Colacho.		
Mae record y byd am daflu tiwna dros bedwar deg metr.		

8
2m

Mae dyn yn neidio dros y babanod yng ngŵyl El Colacho er mwyn …

Ticiwch **un**.

- gwneud i'r babanod chwerthin. ☐
- rhoi ofn i'r babanod. ☐
- gwneud i'r babanod fod yn ddiogel yn y dyfodol. ☐
- rhoi ofn i'r rhieni. ☐
- rhoi lwc i'r rhieni yn y dyfodol. ☐

9
1m

Beth yw rhan **bwysicaf** gŵyl Tunarama?

_____

10
1m

Ticiwch y golofn gywir yn y tabl isod er mwyn dangos ym mha wlad byddwch chi'n gweld y pethau hyn.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

	Cymru	Sbaen	India	Gwlad Thai	Awstralia
cawl	✓				
paent					
bwcedi					
gorymdaith					
matresi					
injan dân					

11
2m

trosodd

CYFANSWM
9m

Dewis Capten

Bwli oedd Owain Tomos Treharne. Doedd dim dwywaith amdani. Bwli o'r radd flaenaf. Bwli a ddylai fod yn uwch-gynghrair y bwlis.

Roedd Owain Tomos Treharne (neu OTT i'w ffrindiau prin) wedi perffeithio'i grefft ers ei fod e'n fachgen bach. Roedd e wastad wedi bod *over the top*. Ac roedd clywed rhai eraill yn ei alw'n 'OTT' (O-Ti-Ti) yn fiwsig i'w glustiau.

Yn anffodus mae e wedi byw yn yr un stryd â ni erioed, ac mae ein rhieni ni'n ffrindiau mawr.

Fel yr aeth amser yn ei flaen, daeth yn fwy amlwg i mi ac i'm rhieni (diolch byth!) nad oedd dim byd yn gyffredin rhyngon ni bellach. Dim byd ar wahân i rygbi.

Ac i fod yn deg ag Owain, roedd e'n chwaraewr da – da iawn ar adegau. Ond roedd un agwedd ar ei chwarae'n ei adael i lawr yn ofnadwy.

Roedd e wedi tyfu'n fachgen cryf a chadarn. Roedd e'n dal, gydag ysgwyddau llydan a breichiau cyhyrog a'i goesau fel dau foncyff coeden. Ac roedd e tu hwnt o gyflym. Roedd e'n cael ei gyfri fel yr wythwr gorau yn hanes yr Ysgol gan sawl un. Ond roedd rhai o'r chwaraewyr a'r staff hyfforddi yn dechrau cael llond bola ar ei driciau.

I Owain Treharne, cyfle i frifo ac anafu oedd rygbi. Roedd e fel petai'n gweld pob cyfle i ddamsgen*, neu fwrw neu grafu ei styds ar gyrff ei wrthwynebwyr. Doedd hi'n syndod i neb felly nad oedd Mr Jones, athro chwaraeon yr ysgol, yn teimlo mai fe fydde'r capten gorau i'r tîm.

'Nawr, bois,' meddai Mr Jones yn ddifrifol wrth gyhoeddi ei ddewis. 'Yr un rwy'n gwybod all arwain drwy esiampl yw … Hywel.'

'Y … y … fi, syr?' meddwn i.

'Ie, wrth gwrs,' atebodd yntau.

Anghofia i fyth o'r olwg ar wyneb OTT pan gefais i f'enwi yn gapten. Fe welais ei lygaid yn culhau a'i drwyn yn crychu. Doedd e ddim yn hapus o gwbl. Ddywedodd e ddim byd wrtha i. Ond gallwn weld ei wefusau'n symud a gwyddwn yn iawn mai, 'OTT! OTT! OTT'n rhy dda i ti!' roedd e'n ei ddweud.

Roeddwn i'n gwybod fy hunan nad oeddwn i gystal chwaraewr â rhai o'r lleill yn y tîm, ond doedd neb yn teimlo unrhyw beth yn fy erbyn i. Neb ond Owain Treharne, wrth gwrs.

Roeddwn i'n gwybod bod fy newis i yn gapten yn dân ar ei groen e. Roeddwn i'n teimlo mai disgwyl ei gyfle roedd e, bod ganddo ryw gynllun neu'i gilydd yn gwreiddio yn ei feddwl a'i fod yn aros am ei gyfle i ddial.

damsgen* – sathru/sefyll ar

Dewiswch a **chopïwch 3** pheth o'r darn sydd yn dangos sut mae Owain yn gwneud drwg i chwaraewyr eraill ar y cae rygbi.

1. _____

2. _____

3. _____

1
1m

Yn ôl y darn, pam roedd Owain yn hoffi chwarae rygbi?

Ticiwch **un**.

- i gadw'n heini ☐
- i fod yn gas wrth blant ☐
- i golli pwysau ☐
- i fod yn bwysig ☐

2
1m

Pam mae'r geiriau *over the top* mewn italig?

Ticiwch **un**.

- achos bod y geiriau'n ddoniol ☐
- achos mai geiriau anodd ydyn nhw ☐
- achos bod y geiriau'n anghywir ☐
- achos mai geiriau o iaith arall ydyn nhw ☐

3
1m

Beth yw effaith disgrifio coesau Owain *fel dau foncyff coeden*?

Ticiwch **un**.

- Mae'n dangos bod coesau byr, tenau gan Owain. ☐
- Mae'n dangos bod Owain yn hoffi dringo coed. ☐
- Mae'n dangos bod coesau hir, cadarn gan Owain. ☐
- Mae'n dangos bod Owain yn symud yn araf. ☐

4
1m

trosodd

CYFANSWM
4m

Darllenwch baragraff cyntaf y darn eto.
Sut mae'r awdur yn pwysleisio mai hen fwli cas yw Owain?

Dewiswch a **chopïwch 2** beth o'r darn sy'n dangos hyn.

1. _____

2. _____

5
1m

Beth yw effaith '...' yn y frawddeg isod:

'Y ... y ... fi, syr?' meddwn i.

Ticiwch **un**.

Mae'n dangos bod Hywel wedi'i synnu.	☐
Mae'n dangos bod Hywel yn gyffrous.	☐
Mae'n dangos nad yw Hywel wedi clywed geiriau Mr Jones y tro cyntaf.	☐
Mae'n dangos nad yw Hywel yn hoffi geiriau Mr Jones.	☐

6
1m

Pam doedd Hywel ddim yn edrych ymlaen at fod yn gapten?

Ticiwch **un**.

Doedd Hywel ddim yn hoffi cael gormod o sylw.	☐
Roedd Hywel yn gwybod bod Owain eisiau dial arno.	☐
Roedd ofn Mr Jones ar Hywel.	☐
Doedd Hywel ddim yn meddwl ei fod e'n chwaraewr da.	☐

7
1m

Sut mae Owain yn ymateb wrth glywed mai Hywel sydd wedi'i ddewis yn gapten?

Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

	Cywir	Anghywir
Roedd Owain wedi dechrau crio.		✓
Roedd Owain wedi gweiddi ar Mr Jones.		
Roedd Owain wedi troi ei gefn ar bawb.		
Roedd ei drwyn wedi crychu.		
Roedd ei wyneb wedi mynd yn goch.		
Roedd ei lygaid wedi mynd yn fach.		

8
2m

Beth mae'r tri dot (…) yn y llinell isod yn ei ddangos i ni?

'Nawr, bois,' meddai Mr Jones yn ddifrifol wrth gyhoeddi ei ddewis. 'Yr un rwy'n gwybod all arwain drwy esiampl yw … Hywel.'

Ticiwch **un**.

Roedd Mr Jones yn nerfus am ddweud enw'r capten. ☐
Roedd Mr Jones yn ansicr am ddweud enw'r capten. ☐
Roedd Mr Jones wedi gadael gair allan. ☐
Roedd Mr Jones am greu tyndra cyn dweud yr enw. ☐

9
1m

Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn o 1 i 5.

Mae rhif 5 wedi'i wneud yn barod i chi.

Mr Jones yn cyhoeddi enw'r capten. ☐
Hywel yn disgrifio ymddygiad Owain ar y cae. ☐
Hywel yn sôn am ei blentyndod. ☐
Owain yn dweud *'OTT'n rhy dda i ti!'* o dan ei anadl. ☐
Hywel yn poeni am fod yn gapten. 5

10
1m

Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.

CYFANSWM
7m

Diolchiadau

'Carreg Samson' gan Sonia Edwards o *Gwlad y Dreigiau* gol. Brett Breckon, Gomer, 2004.

Darparwyd lluniau o bysgod tiwna gan Port Lincoln Tunarama Inc.

'Dewis Capten' addaswyd o'r stori 'OTT' gan Hefin Jones o *Pac o Straeon Rygbi* gol. Alun Wyn Bevan, Gomer, 2000.

Y mae'r testunau hyn wedi eu cynnwys yn y papur prawf hwn at ddibenion yr arholiad yn unig yn unol ag Adran 32(3) y Ddeddf Hawliau, Dyluniadau a Phatentau 1988. Nid oes cais wedi ei wneud na hawl wedi ei roi ar gyfer unrhyw hawlfraint arall.

© Hawlfraint y Goron 2013